**Cyngor Cymuned Llaneilian (389)**
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Ebrill 14 2026 am 7.15yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Ian Evans, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alison Williams, Hefina Williams, John Griffiths, Dewi Jones, James Roe, Derek Owen, Aled Morris Jones

**1 Croeso**
Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**
Dim o'r newydd.

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Gordon Hayes, eilio Carol Whitaker.

**4 Materion yn Codi**

4.1 Cafwyd ymateb gan Marc Jones ynglyn a'r £3.5m oedd wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau cyfalaf.

4.2 Cafwyd ymateb gan Huw Percy yn cydnabod ymateb y Cyngor Cymuned i'r ymgynghoriad casglu gwastraff.

**5 Diweddariadau**

5.1 Caeau Chwarae – cadarnhawyd bod unrhyw waith oedd wedi ei adnabod yn yr adroddiad diwethaf bellach wedi ei gwblhau. Nodwyd nad oedd mwy o boteli gwin yn y cae chwarae erbyn hyn ond bod y bin yn llawn caniau cwrw, cytuno monitro'r sefyllfa.

Cadarnhawyd bod gwaith ar y gweill i drin y gamdda ar ffin Maes Llwyfo unwaith bydd y tir wedi sychu yn ddigonnol. Bu cytuno byddai archebu a gosod dau arwydd ychwanegol ger yr offer ffitrwydd yn hyrwyddo defnydd diogel ohonynt (Cronfa TMI).

5.2 Llithrfa – cadarnhawyd bod y ffurflenni cais at gyfer y cynllun wedi eu diweddaru ac ar gael ar wefan y Cyngor, gobeithir bydd y goriadau ar gael ar ddiwedd y mis. Bu tynnu sylw at arwydd newydd sydd wedi ei osod ar ben y llithrfa, nodwyd siom am maint a lleoliad yr arwydd ac nad oedd CSYM wedi ymgynghori a'r Cyngor Cymuned o gwbwl. Mae'n debyg y byddai wedi bod angen caniatad cynllunio petai unrhyw un arall am osod arwydd o'r fath yn y lleoliad yma. Nodwyd siom hefyd mai cwmni o Loegr oedd yn darparu a gosod yr arwydd. Cytuno cysylltu a CSYM i dynnu sylw.

Cafwyd wybod wrth osod yr arwydd newydd, bod CSYM wedi tynnu'r blwch dosbarthu bagiau baw ci, yn anffodus mae wedi dirywio'n ormodol i'w ail osod. Cytuno byddai chwilio am grantiau i brynnu deg blwch newydd i'w gosod o amgylch y gymuned.

5.3 Mynwentydd – Bosra – bu tynnu sylw nad oedd y goat fawr yn aros ar gau, ond bod peryg hefyd i rywun frifo eu dwylo wrth drio ei gau. Cytuno cysylltu a'r Henaduriaeth i dynnu sylw.

Carmel – cadarnhawyd bod y clerc wedi trafod y fynwent gyda cynrychiolydd Undeb y Bedyddwyr a bod disgwyl cynnig ffurfiol ganddynt am drosglwyddo'r fynwent a swm o arian i'r Cyngor Cymuned. Wedi trafodaeth, bu cytuno byddai gofyn am wybodaeth pellach am y Capel a gweddill yr eiddo wrth nodi ei fod yng nghanol y pentref.

Llaneilian – cadarnhawyd bod y gardd goffa wedi ei drafod yng nghyfarfod pwyllgor TMI. Bydd aelodau pwyllgor y fynwent yn gosod y meinicau perthnasol diwedd yr wythnos ac yn mesur am flychau i blannu blodau a gosod placiau coffa.

5.4 Polisi a Chyllid – bu'r clerc gadarnhau ei bod wedi mynychu hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer paratoi cyfrifon ar gyfer archwiliad. Bu dosbarthu ffurflenni hawlio lwfans aelodau i'r rheini oedd yn bresennol.

5.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd bod y pwyllgor wedi cwrdd cyn y Cyngor Llawn, bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Mehefin.

5.6 Llwybrau – nodwyd nad oedd ymateb gan Arwel Evans, cytuno byddai cysylltu eto. Cytuno byddai gofyn i Sion Williams roi sylw i'r llwybrau dan sylw a gofyn am anfoneb ar wahan am y gwaith. Nodwyd bod Alan Williams ar ganol trin yr arwyddion derw sydd wedi torri ac y byddent yn cael eu gosod yn ol maes o law.

5.7 Pwyllgorau Allanol – cafwyd grynodeb gan Alan Williams yn dilyn cyfarfod **Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon** oedd yn ymdrin a materion solar. Mae'r Bartneriaeth wedi cysylltu a'r Arolygaeth Gynllunio a'r Datblygwr i ofyn am wybodaeth pellach a chyfnod ymgynghori arall gan fod y cynlluniau wedi esblygu dros amser ac mae pryder bod y prosiect wedi newid yn ormodol ers yr ymgynghoriad diwethaf.

Bu Carol Whitaker dynnu sylw at gyfarfod pwyllgor camlwyddiant y **Neuadd** sydd yn trefnu dathliadau ar gyfer mis Hydref. Os oes unrhyw wybodaeth neu luniau am hanes y Neuadd dros y can mlynedd diwethaf byddai'r pwyllgor yn diolchgar iawn ohonynt.

5.8 Bioamrywiaeth / Amgylcheddol – nodwyd bod yr arddangosfa cennin pedr wedi bod yn wych yn y pentref ac y y fynwent eleni, gobeithir gallu plannu mwy o fylbiau yn yr Hydref gyda'r ysgol unwaith eto.

## <u>6</u> <u>Materion Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyhoeddus</u>

6.1 Teithio Llesol – cafwyd wybod bydd ymgynghoriad pellach dros yr haf.

6.2 Drychau Gweledig – cafwyd wybod gan Alun Roberts bydd drychau yn cael eu gosod ar ben Lon Lletroed a Lon Gors dros yr wythnosau nesaf i wella gwelededd i gerbydau yn dod i'r lon fawr.

6.3 Traffig Wylfa ar y Ffordd Osgoi – cafwyd ymateb gan Alyn Roberts yn dilyn y llythyr derbyniwyd gan aelod o'r gymuned yn pryderu am gynydd yn y nifer o gerbydau a'u cyflymder ar y ffordd osgoi. Cytuno anfon copi o'r ebost at y sawl bu gysylltu a'r Cyngor.

6.4 Cafwyd ymateb gan Huw Percy i'r rhestr o faterion priffyrdd i'w trafod. Awgrymai bod y Cyngor yn cysylltu a'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol i drafod ymhellach, cytuno byddai gwahodd Alun Roberts i gyfarfod a'r Cyngor Llawn ym mis Mai. Cytuno byddai hefyd o fudd cwrdd ag Arwel Evans i drafod llwybrau'r ardal.

6.5 Tyllau – bu tynnu sylw at dwll rhwng Bryn Dasi a Clustach ar Lon yr Ysgol tuag at Bengorffwysfa. Cytuno tynnu sylw CSYM ar frys gan fod y lon hefyd yn lwybr beicio a bod peryg o anaf gan nad y'w twll i'w weld pan mae dan ddwr.

6.6 Gwsanaeth Bysiau – trafodwyd cysylltiadau gwasanaethau bws eto gan nodi byddai o bosib o fudd trafod y mater ym Mhwyllgor Ardal Un Llais Cymru neu yn y Fforwm Cyswllt.

6.7 Gardd Top Rallt – nodwyd bod y cerbyd problemus yn parhau yn y maes parcio. Mae'r heddlu a CSYM yn ymwybodol ond nid yw wedi ei symud. Cytuno gofyn i Alun Roberts am ddiweddariad a chadarnhau pa gamau eraill gellid eu cymryd.

## <u>7</u> <u>Cynllunio</u>

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

7.1 Ceisiadau –
HHP/2026/46 Argraig, Llaneilian – dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, cynnig bod CSYM yn cynnwys amod i sicrhau bod defnydd yn atodol i'r ty ac nad oes posib ei ddefnyddio fel uned

anibynnol neui ei ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau neu defnydd masnachol arall.

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wyboda am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
FPL/2026/16 Mount View, Llaneilian Rd – wedi ei ganiatau
LUE/2025/15 Mount View, Llaneilian Rd – wedi ei ganiatau

7.3 Gorfodaeth – dim diweddariad.

7.4 Datblygiadau Solar– gweler pwyllgorau allanol uchod.

7.5 Unrhyw fater cynllunio arall – dim

**8 Materion Ariannol**

8.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol
£100.60 Ysgol Gynradd Penysarn (cyfraniad – cystadlu yn yr eisteddfod)
£10,513.56 DE Griffiths Ltd (gardd goffa TMI)
£613.08 Cyflog Clerc
£256.00 Costau Clerc Ionawr – Mawrth
£583.74 DE Griffiths Ltd (gardd goffa TMI)
£192.71 Sion Williams (torri gwair)
£289.00 Aelodaeth Un Llais Cymru
£56.98 Amazon -inc

8.2 Ceisiadau am Arian – daw un cais am gefnogaeth ariannol – Pwyllgor Gwlad y Medra (Sir Nawdd Sioe Frenhinol Cymru). Cytuno peidio a chefnogi am y tro.

8.3 Adroddiad Chwarterol (Blynyddol) – cadarnhawyd bod copi o'r adroddiad wedi ei anfon at yr aelodau drwy ebost er gwybodaeth.

8.4 Archwiliad – cafwyd wybod gan y clerc bodymholiadau pellach wedi eu derbyn ynglyn ag archwiliad 2024/25 gan Archwilio Cymru a'i bod wedi ymateb gyda'r wybodaeth berthnasol. Cadarnhawyd bod y Cyngor eisioes wedi penodi Alun Foulkes i gwblhau'r archwiiad mewnol ar gyfer 2025/26. Bydd yr archwiliad eleni yn edrych ar yr adroddiad blynyddol, monitro cyllidebau a'r archwiliad mewnol.

**9 Coedwig Cymunedol (Perllan)**

Nodwyd bod yr eitem wedi ei drafod yn fanwl gan bwyllgor Ty Moel Isaf a bu'r Cyngor Llawn gytuno gwirio'r cynllun a hawliau tramwy gyda CSYM a gofyn i'r cyfreithiwr cael golwg ar yr amodau newydd. Cytuno gofyn i CSYM drefnu symud y sglodion coed, a pwysleisio nad y Cyngor Cymuned oedd wedi gofyn i'r deunydd gael eu gadael ar y safle. Nodwyd siom eto bod y goeden eirin wedi ei dorri gan gontractwyr CSYM.

**10 Llwybr Lon Gors – Lon Lletroed**

Nid oedd ymateb gan yr adran briffyrdd yn dilyn cais am gyfraniad / cefnogaeth i gwblhau'r arolwg amgylcheddol. Cytuno mai'r cam cyntaf fyddai rhoi sylw i'r sbwriel sydd wedi ei adael ar ben y llwybr arfaethiedig.

**11 Cysgodfannau Bws Pengorffwysfa**

Bu gohurio'r drafodaeth - gweler gohebiaeth isod.

**12 Iechyd a Diogelwch**

Dim nad oedd eisioes wedi eu trafod.

**13 Gohebiaeth**

13.1 Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

13.2 Bu'r clerc dynnu sylw'r aelodau at ohebiaeth gan CSYM ynglyn ag arian cyfalaf oedd ar gael drwy gynllun Balchder yn eich Cymuned. Mae £14,443 wedi ei glustnodi ar gyfer ardal Llaneilian. Bydd

y clerc yn cadarnhau bwriad y Cyngor i dderbyn y grant cyn y dyddiad cau, gofynnwyd i'r aelodau feddwl am brosiectau posib er mwyn gallu cyflwyno ffurflen gais a chostau erbyn diwedd mis Mehefin. Bydd angen cwblhau'r prosiect erbyn diwedd mis Hydref ac hawlio'r arian erbyn diwedd Tachwedd.

**14** **Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf**

Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

- Priffyrdd – Gwahodd Alun Roberts
- Prosiectau Cyfalaf (grant)

**15** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Mai 12, 2026
Bu atgoffa'r aelodau mai hwn fydd cyfarfod blynyddol y Cyngor.

Bu'r cyfarfod orffen am 9.30yh o'r gloch

**Alan Williams, Cyngor Cymuned Llaneilian**
CET04/2026